# THOMAS, RICHARD (1871 - 1950), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur

**Enw:** Richard Thomas
**Dyddiad geni:** 1871
**Dyddiad marw:** 1950
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Richard Bryn Williams

Ganwyd 8 Medi 1871 yn Llangefni, Môn. O adran coleg y Bala aeth i goleg y Brifysgol, Bangor, a graddio yn 1901. Wedi cwrs yng ngholeg diwinyddol y Bala, ordeiniwyd ef yn 1904, ac aeth yn weinidog ar eglwysi'r Bont-newydd a Phen-y-graig yn Arfon, lle'r arhosodd am agos 30 mlynedd. Bu'n ysgrifennydd Bwrdd Rheolwyr Cartref Bont-newydd i blant amddifaid o 1904 hyd 1945, ac yn un o'i lywodraethwyr hyd ei farwolaeth 5 Ebrill 1950

Cyhoeddodd lyfr o hanes *David Livingstone* (1912), cofiant *David Williams, y Piwritan* (1928), a *Cartre'r Plant* (1951). Enillodd wobr yr eisteddfod genedlaethol am gyfieithu termau cyfreithiol i'r Gymraeg, a bu am flynyddoedd yn olygydd *Blwyddiadur* a *Dyddiadur* ei enwad.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Bryn Williams**, (1902 - 1981)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1951

*Y Goleuad*, 12 Ebrill 1950

gwybodaeth gan ei fab


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 88456990

Wikidata: Q20821441


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu